



Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales

Dyfrffyrdd i Gymru

Prospectws ar gyfer Camlesi Cymru



Cynnwys

Rhagair	3
Camlesi yng Nghymru	4-5
Camlesi: Datgloi'r potensial	6
Cysoni gweledigaethau strategol	7
Lleoedd a ffyniant	8-13
Natur a bioamrywiaeth	14-17
Iechyd a lles	18-19
Gwydnwch a diogelwch	20-21
Gyda'n gilydd byddwn yn: Galw am weithredu	22-23

Rhagair

Mae Cymru yn genedl wedi'i siapio gan ddŵr. Mae ein camlesi a'n hafonydd mordwyol yn edafedd byw sy'n clymu tirweddau, cymunedau a hanesion - o hen lwybrau diwydiannol a fu'n pweru cenedl, i'r coridorau glas a gwyrdd a welwn heddiw sy'n cefnogi llesiant, adferiad natur a thwf cynaliadwy. Mae'r prospectws hwn yn nodi gweledigaeth o'r newydd ar gyfer dyfrffyrdd Cymru: fel asedau cyhoeddus cadarn sy'n darparu gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar gyfer yr 21ain ganrif.

Mae gan Glandŵr Cymru - yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru - y fraint o ofalu am y lleoedd hyn ar ran y cyhoedd. Mae ein dyfrffyrdd yn fannau agored a chynhwysol sy'n dod â phobl at ei gilydd - gan eu helpu i gerdded, beicio, defnyddio cychod a gwirfoddoli, gwella iechyd meddwl ac iechyd corfforol, a chreu cyrchfannau unigryw sy'n hybu economïau lleol. Mewn trefi, mae camlesi ac afonydd yn cynnig ffocws pwerus ar gyfer adfywio; mewn tirweddau gwledig ac ôl-ddiwydiannol, maen nhw'n darparu parhad, cymeriad a chyfle.

Mae partneriaeth yn hollbwysig i wireddu'r potensial hwn. Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol, elusennau, busnesau a thirfeddianwyr, gallwn fuddsoddi'n fwy effeithiol, cysoni blaenoriaethau a datgloi arloesedd. Mae uchelgeisiau cyffredin - ynghylch creu lleoedd, sgiliau, twristiaeth, teithio llesol a threftadaeth ddiwylliannol - yn cael eu cyflawni orau gyda'i gilydd. Mae'r prospectws hwn yn gwahodd partneriaid i gyd-greu atebion sy'n darparu manteision parhaol i bobl a lleoedd ledled Cymru.

Mae gwydnwch amgylcheddol wrth wraidd ein cenhadaeth. Mae camlesi ac afonydd yn elfennau hanfodol o rwydwaith adfer natur Cymru. Gyda stiwardiaeth feddylgar, gallant wella bioamrywiaeth,

gwella ansawdd dŵr, rheoli peryglon llifogydd a helpu cymunedau i addasu i newid hinsawdd. O adfer cynefinoedd a mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol i wella effeithlonrwydd dŵr a pherfformiad carbon, mae ein dyfrffyrdd yn llwyfannau ymarferol y gellir eu hehangu er mwyn gweithredu ar yr hinsawdd - gan ddangos sut mae treftadaeth adeiledig a natur yn gallu ffynnu ochr yn ochr â'i gilydd.

Mae hyrwyddo defnydd o gamlesi yn yr 21ain ganrif yn golygu mabwysiadu dulliau arloesol wrth barchu hanes. Gall ymgysylltu digidol, seilwaith craffach, dylunio cynhwysol a mathau newydd o hamdden ehangu mynediad a pherthnasedd. Mae ein dyfrffyrdd yn gallu cynnal defnydd modern o seilwaith a chychod hamdden lle bo'n briodol, cynnal digwyddiadau a chyfleoedd dysgu, galluogi teithio llesol, a bod yn fannau prawf ar gyfer technoleg werdd. Yn hanfodol, gallant ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i werthfawrogi a gofalu am fannau cyhoeddus sy'n cael eu rhannu gan bawb.

Mae'r prospectws hwn yn wahoddiad: i fuddsoddi, i gydweithio ac i arwain. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod camlesi ac afonydd Cymru yn parhau i wasanaethu'r genedl - gan gysylltu cymunedau, cryfhau gwydnwch a chreu cyfleoedd - nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Fay Jones-Poole, Chair Bwrdd Glandŵr Cymru



Ben Cottam, Cyfarwyddwr, Cymru a De-Orllewin



Campbell Robb, Prif Weithredwr Glandŵr Cymru

Camlesi yng Nghymru

Fel yr elusen sydd â'r cyfrifoldeb o warchod yr asedau anhygoel hyn, ein cenhadaeth yw datgloi potensial ein camlesi yng Nghymru i sbarduno twf, llesiant a gwydnwch amgylcheddol, gan gefnogi cymunedau a diwydiant yfory.

Yn fwy na dim ond darnau o ddŵr, mae ein camlesi yn dreftadaeth fyw a choridorau gwyrdd sy'n mynd trwy drefi, dinasoedd ac ardaloedd gwledig, gan gynnig tawelwch a lle i anadlu. Mewn llawer o'n trefi y mae'r camlesi'n nadreddu drwyddynt, nhw yw'r llwybr cyflymaf allan i gefn gwlad a chyfleoedd i gyrchu mannau gwledig. Maen nhw'n cynnig lleoedd i berchnogion cychod, cerddwyr, beicwyr, pysgotwyr, a chymunedau gysylltu â natur. Maen nhw hefyd yn hafanau i fywyd gwylt, o'r glas y dorlan i blanhigion prin, gan brofi bod y dyfrffyrdd mor hanfodol heddiw ag erioed, ond mewn ffyrdd newydd. Ar ben hynny, mae camlesi yn darparu asedau hanfodol i'n heconomi ac yn ffordd bwysig o reoli dŵr mewn hinsawdd lle mae rheoli ein hadnoddau naturiol yn hollbwysig.

Mae camlesi yn gatalydd ar gyfer datblygu economaidd ac adfywio, gan wneud cyfraniad cryf i'n heconomiâu lleol. Yn 2022, fe wnaeth dyfrffyrdd Glandŵr Cymru gynhyrchu £168m o werth ychwanegol gros yng Nghymru, gyda chyfanswm cyfraniad cyfanredol i economi'r DU o £474m. O ran cyflogaeth, roedden nhw'n cynnal 5,815 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol yng Nghymru ac yn helpu i gynnal mwy eto trwy rannau gwahanol o'r economi. Fodd bynnag, credwn fod llawer mwy o botensial i ddefnyddio ein camlesi mewn cynlluniau seiliedig ar le ar draws pedwar rhanbarth Cymru, er mwyn cynorthwyo datblygu economaidd cynaliadwy.


Mae angen ymroddiad cyson i ofalu am y rhwydwaith hwn. Mae Glandŵr Cymru yn gweithio'n ddiflino ledled Cymru i drwsio lociau hanesyddol, cryfhau llwybrau tynnu, gwella ansawdd dŵr, a chreu llwybrau diogel ar gyfer hamdden a theithio llesol. Mae pob prosiect yn sicrhau bod y camlesi yn parhau i fod yn hygyrch i filiynau o bobl sy'n byw ac yn gweithio gerllaw fel y gallant eu mwynhau. Mae ein gwaith wedi'i ategu gan wirfoddolwyr angerddol a hynod ymroddedig o bob cefndir sy'n dod â sgiliau ac arbenigedd.

Mae gwaith partneriaeth yn cryfhau'r ymdrechion hyn...

Wrth i bedwar rhanbarth economaidd Cymru ddatblygu prosiectau ar draws themâu gwahanol y ddogfen hon, credwn fod cyfle i ystyried sut gallai camlesi ategu'r cynlluniau a'r cynigion hynny. Mae un o'n camlesi yn cael ei chynrychioli ym mhob un o'r rhanbarthau Dinesig a Thwf – pob un â'i manteision unigryw ei hun ac yn cynrychioli cyfleoedd gwahanol i dyfu hunaniaeth a gwydnwch y rhanbarthau hynny a'u cymunedau.

Gyda llywodraeth newydd yng Nghymru a mecanweithiau newydd ar gyfer defnyddio cyllid cyhoeddus a phwysleisio o'r newydd tasg sefydliadau a phartneriaid y llywodraeth i ategu a thyfu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru, nawr yw'r amser i drafod sut mae ein camlesi yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Cymru a'i chymunedau.

Yn 2022, fe wnaeth dyfrffyrdd Glandŵr Cymru gynhyrchu **£168 miliwn** o werth ychwanegol gros uniongyrchol yng Nghymru



Camlesi: Datgloi'r potensial

Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu pedair thema bwysig – ‘lleoedd a ffyniant’, ‘natur a bioamrywiaeth’, iechyd a llesiant’, a ‘gwydnwch a diogelwch’. Mae'r rhain yn dangos budd camlesi i flaenoriaethau tebyg ar draws polisïau, gan gynnwys y Nodau Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae camlesi mewn sefyllfa unigryw i helpu i gyflawni'r weledigaeth a rennir hon. Maen nhw'n darparu atebion modern, o lwybrau teithio cynaliadwy a seilwaith sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd, i adfywio, cychod a thwristiaeth, hamdden, a balchder bro. Maen nhw'n gyfrwng effeithiol ar gyfer atebion seiliedig ar leoedd yng nghyffiniau'r gamlas.

Mae camlesi yn chwarae rhan hanfodol ar draws pedair thema allweddol:



Lleoedd a ffyniant

Cefnogi twf cynaliadwy, defnyddio cychod, datblygu a byw

Mae camlesi yn llywio twf economaidd trwy adfywio, tai, a thrafnidiaeth gynaliadwy, gan wneud trefi'n llefydd bywiog i fyw, gweithio ac ymweld â nhw. Trwy raglenni prentisiaethau a mentrau gwirfoddoli, mae Glandŵr Cymru hefyd yn cynnig amgylchedd rhagorol i bobl o bob oed i ddatblygu a mireinio eu sgiliau a gwella eu hyder a'u cyflogadwyedd, gan gynnig llwybrau at fwy o symudedd, cyfleoedd a chefnogaeth. Mae camlesi yn ffordd o ddenu twf a datblygiad economaidd, boed hynny fel asedau twristiaeth, lleoedd i ddatblygu busnesau, cadwyni cyflenwi a swyddi neu gryfhau cymunedau. Mae ein camlesi yn annwyl i ni ac yn rhan bwysig o'n treftadaeth, gan ddarparu cyfleoedd pwysig i ymwneud â threftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg.



Natur a bioamrywiaeth

Cynefinoedd a choridorau hanfodol i natur ffynnu.

Mae dyfrffyrdd yn cefnogi bioamrywiaeth, yn diogelu cynefinoedd, ac yn cyfoethogi mannau gwyrdd a glas. Mae cydweithredu â phartneriaid allweddol yn caniatáu i'r manteision hyn gyrraedd pob cwr o'r rhanbarth, gan greu dyfodol mwy cyfartal a gwyrddach i bawb. Mae rheolaeth ofalus o gamlesi gan Glandŵr Cymru yn sicrhau bod cydbwysedd bregus bioamrywiaeth yn cael ei gynnal ac yn diogelu mannau i ategu gwydnwch ecolegol.



Iechyd a llesiant

Mae cysylltu pobl â mannau gwyrdd a glas, llwybrau a natur yn cyflwyno manteision i'n cymunedau.

Mae mannau hygyrch ar gyfer cerdded, olwynio, beicio, defnyddio cychod, hamddena a gwirfoddoli yn gwella lefelau gweithgarwch, iechyd meddwl ac iechyd corfforol, yn ogystal â chysylltiadau cymdeithasol. Gan weithio ar y cyd â phartneriaid, gall ein camlesi helpu i gefnogi mentrau iechyd cyhoeddus a thrafnidiaeth ehangach gan ddarparu mannau lle mae pawb yn gallu byw'n dda.



Gwydnwch a diogelwch


Rhan hanfodol a chydgyssylltiedig o seilwaith y genedl

Mae camlesi yn helpu i feithrin gwydnwch trwy reoli a lliniaru perygl llifogydd, helpu i oeri trefi, darparu seilwaith sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, a helpu a chefnogi opsiynau trafndiaeth cynaliadwy. Gallan nhw hefyd gynnal seilwaith hanfodol fel ceblau, pibellau ar gyfer gwasanaethau fel dŵr, trydan a ffeibr rhyngwrdd sy'n rhoi hwb i wydnwch ynni a chyfathrebu ac opsiynau ar gyfer mwy o gysylltedd – yn enwedig yn ardaloedd gwledig Cymru. Mae cydlynu â phartneriaid diwydiant allweddol yn sicrhau bod dyfrffyrdd yn rhan o gynlluniau hirdymor ar gyfer gwydnwch a chynaliadwyedd.

Cysoni gweledigaethau strategol

Mae gweledigaeth Glandŵr Cymru ar gyfer 'dyfrffyrdd byw sy'n gweddnewid lleoedd ac yn cyfoethogi bywydau' a'i themâu allweddol 'lleoedd a ffyniant', 'natur a bioamrywiaeth', 'iechyd a llesiant', a 'gwydnwch a diogelwch' yn cyd-fynd yn gryf â'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae ein camlesi a'n seilwaith amlswyddogaethol eisoes yn helpu i gyflawni canlyniadau ar draws pob un o'r saith nod llesiant fel y gwelir yn yr astudiaethau achos cysylltiedig, a thrwy weithio mewn partneriaethau pellach, rydym ni'n credu y gallwn gyflawni mwy.





Lleoedd a ffyniant

LLEOEDD: Cefnogi twf economaidd cynaliadwy, defnyddio cychod, datblygu a byw

Mae camlesi yng Nghymru yn gwneud cyfraniad gwerthfawr o ran cefnogi twf economaidd cynaliadwy drwy ddenu twristiaeth effaith isel ac annog mentrau lleol.

Mae dyfrffyrdd fel Camlas Mynwy ac Aberhonddu, Camlas Abertawe a Chamlas Llangollen yn denu ymwelwyr sy'n chwilio am gyfleoedd cerdded, beicio, defnyddio cychod a phrofiadau sy'n seiliedig ar natur. Mae'r dwristiaeth gyson hon gydol y flwyddyn yn cynnal busnesau bach fel tafarndai a chaffis, darparwyr llety, cwmnïau llogi cychod a gwasanaethau ymwelwyr, gan ledu manteision economaidd ar draws cymunedau gwledig ac ôl-ddiwydiannol ar yr un pryd â lleihau'r effaith amgylcheddol o'i gymharu â datblygiadau mwy dwys eu natur.

Y tu hwnt i dwristiaeth, mae camlesi Cymru yn cyfrannu'n gryf at ddatblygiad lleoedd, gan helpu i adfywio trefi a phentrefi a chryfhau hunaniaeth leol. Mae camlesi Cymru, a fu'n rhan mor ganolog o dreftadaeth ddiwydiannol ein gwlad ar un adeg, bellach yn gweithredu fel atgof byw o'r hanes hwnnw, gan gynnig tirweddau unigryw y gall cymunedau ymfalchïo ynndyn nhw. Maen nhw'n cynnig platfformau pwysig ar gyfer ategu pwysigrwydd treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg. Mae buddsoddi mewn llwybrau tynnu, pontydd a strwythurau treftadaeth yn aml yn gweithredu fel sbardun ar gyfer adfywio ehangach, yn cynnwys gwella mannau cyhoeddus, ailgysylltu cymdogaethau, a gwneud lleoedd yn fwy deniadol i drigolion, buddsoddwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Fel coridorau gwyrdd hygyrch, mae camlesi hefyd yn gwella cysylltedd trwy gysylltu aneddiadau ag ysgolion, gweithleoedd a chanol trefi, diolch i lwybrau teithio llesol sy'n ddiogel.

Gyda datblygiad Bargeinion Dinesig a Thwf ledled holl ranbarthau Cymru, mae cyfle i'n camlesi ddenu buddsoddiad.

Mae Glandŵr Cymru nid yn unig yn gweithio i gynnal a datblygu ein dyfrffyrdd ein hunain yng Nghymru, ond rydym ni hefyd yn gweithredu fel partner allweddol i lywodraeth leol a phartneriaethau eraill i gefnogi uchelgeisiau llywodraeth leol fel Strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer eu rhan nhw o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, gan helpu i wireddu potensial datblygu economaidd . Gan mai dim ond 4% o'r tir ar lan ein camlesi sy'n eiddo i ni, rydym ni'n gweithio i ddiogelu ein dyfrffyrdd hanesyddol a'n strwythurau pridd bregus a'r cymunedau maen nhw'n llifo drwyddyn nhw rhag

unrhyw effaith andwyol gan weithgarwch datblygu trydydd parti yn ein rôl fel ymgynghorai statudol yn y broses Rheoli Datblygu.

Hefyd, rydym ni'n gwneud ein gorau glas i sicrhau bod datblygiadau newydd gan drydydd partion yn cael eu cynllunio a'u datblygu'n briodol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan ein dyfrffyrdd, ac i ddarparu manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ehangach. Rydym ni wedi creu canllawiau penodol ynghylch camlesi - Dylunio ar gyfer Camlesi - er mwyn helpu'r rhai sy'n cynhyrchu canllawiau dylunio, codau dylunio ac uwchgynlluniau i osod disgwiliadau dylunio ar gyfer datblygu ger ein dyfrffyrdd.



ASTUDIAETH ACHOS: Adfer Camlas Maldwyn

Camlas Maldwyn yw un o'r enghreifftiau gorau o waith adfer camlesi ym Mhrydain, gan gyfuno cadwraeth treftadaeth, gwella ecolegol a thwristiaeth gynaliadwy. Mae rhannau helaeth ohoni'n cael eu hadfer yn raddol mewn modd sensitif i ddiogelu cynefinoedd prin wrth ailgyflwyno cychod arni.

Mae'r gwaith adfer, sy'n datblygu ased arwyddocaol i'r rhanbarth ar hyd y ffin rhwng Powys a Swydd Amwythig, wedi'i gefnogi gan Gyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae'r prosiect hefyd yn un o naw prosiect blaenoriaeth a nodwyd gan Bartneriaeth y Gororau Ymlaen.

Mae'r prosiect hwn yn llwyddo i gydbwyso bioamrywiaeth o bwys rhyngwladol gydag adfer treftadaeth, gan ddarparu coridor camlas wedi'i wella fel rhwydwaith natur cysylltiedig sy'n cynnal rhywogaethau dŵr croyw yn ogystal â datblygu mynediad i ymwelwyr wedi'i gynyddu mewn ffordd reoledig a chynaliadwy. Mae'r gwaith adfer yn darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr lleol, hyfforddiant sgiliau ac ymgysylltu â'r gymuned gan greu ased sydd nid yn unig o bwysigrwydd lleol ond yn atyniad i ymwelwyr ac o fudd i'r economi leol.

Mae adfer Camlas Maldwyn yn esiampl o bartneriaeth a gwaith sy'n canolbwyntio ar ddatblygu defnydd o'n dyfrffyrdd hanesyddol a'u cynefinoedd yn yr 21ain ganrif a'u diogelu hefyd. Bydd yn darparu cyfleoedd yn y dyfodol i feithrin partneriaethau newydd â phartneriaid preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector i sicrhau ei fod yn cael ei adfer yn llawn.

Mae adfer y Gamlas yn enghraifft o sicrhau gwydnwch amgylcheddol hirdymor wrth gefnogi economïau gwledig, law yn llaw â buddsoddiad ataliol sy'n seiliedig ar leoedd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ymhlith y prosiectau unigol mae adfer Dyfrbont Efyrrnwy, pont hanesyddol restredig Gradd II*, pont ffordd newydd ar draws y gamlas yn Lôn Carreghwfa, a Gwarchodfa Natur Pwll y Wern sydd bellach wedi'i chwblhau ac a agorwyd ym mis Tachwedd 2025.

Mae llawer mwy o waith cyffrous i'w wneud ar y prosiect hwn a bydd sicrhau cymorth ariannol yn y dyfodol yn helpu i sicrhau manteision i'r rhanbarth cyfan. Fodd bynnag, bydd gwireddu'r gwaith adfer pwysig hwn yn creu ased pwysig o ran denu ymwelwyr a sicrhau twf i economi'r Canolbarth. Mae'r prosiect hefyd wedi creu partneriaethau cymunedol pwysig a fydd yn helpu i sicrhau stiwardiaeth hirdymor Camlas Maldwyn.



Lôn Carreghwfa



Gwarchodfa Natur Pwll y Wern

ASTUDIAETH ACHOS: Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a Chamlas Llangollen

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid i ofalu am Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a Chamlas Llangollen a'i ddiogelu, gan gydnabod bod ei arwyddocâd yn ymestyn y tu hwnt i'r ddyfrffordd ei hun. Y Dyfrbont yw un o strwythurau mwyaf adnabyddus Cymru yn rhyngwladol ac mae'n dyst i ddyncwch ac arloesedd peirianwyr camlesi y ddeunawfed ganrif.

Er bod campwaith peirianyddol 220 mlwydd oed Dyfrbont Pontcysyllte yn enwog ledled y byd ac yn un o eiconau Cymru, mae'n rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ehangach sy'n cynnwys 11 milltir o gamlesi a strwythurau hanesyddol sydd nid yn unig yn cynrychioli ased treftadaeth unigryw ond hefyd yn atyniad enfawr i dwristiaeth ddomestig a rhyngwladol - gan ddenu hyd at hanner miliwn o ymwelwyr y flwyddyn a darparu lleoliad ffilmio eiconig ar gyfer llu o gynyrchiadau teledu a ffilm gan gynnwys yn fwyaf diweddar y ffilm boblogaidd Peaku Blinders: The Immortal Man.

Fel yr awdurdod mordwyo a'r prif reolwr tir, mae Glandŵr Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol, yn enwedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych, yn ogystal â Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn rhannu cyfrifoldeb am gynllunio, cadwraeth a diogelu'r amgylchedd, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau sy'n effeithio ar y safle yn parchu ei werth cyffredinol eithriadol a'i gynaliadwyedd hirdymor.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn arbennig o bwysig wrth warchod a chynnal a chadw'r strwythurau hanesyddol sydd o bwys byd-eang.

Glandŵr Cymru sy'n arwain y gwaith o gynnal a chadw'r gamlas, y dyfrbont, y llwybrau tynnu a'r nodweddion peirianyddol cysylltiedig, wrth weithio gydag arbenigwyr treftadaeth, cyrff cadwraeth gan gynnwys Cadw a chynghorwyr UNESCO, i gyflwyno arferion gorau mewn cadwraeth hanesyddol. Mae arolygon cyflwr rheolaidd, atgyweiriadau arbenigol a rheoli dŵr yn ofalus yn cael eu cydlynu trwy gynlluniau rheoli y cytunwyd arnynt, gan sicrhau bod gwaith cadwraeth yn cydbwysu anghenion gwarchod treftadaeth ag anghenion defnyddwyr cychod, cerddwyr a beicwyr.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cymunedau lleol, ymwelwyr a'r economi ehangach o amgylch y Safle Treftadaeth y Byd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â sefydliadau twristiaeth, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr a busnesau lleol i hyrwyddo mynediad cyfrifol, dysgu a mwynhad o'r gamlas. Mae mentrau ar y cyd fel rhaglenni addysg, dehongli, digwyddiadau a phrosiectau bioamrywiaeth yn helpu pobl i ddeall pwysigrwydd byd-eang y safle wrth annog stiwardiaeth ar lawr gwlad. Drwy'r partneriaethau hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod Pontcysyllte yn parhau i gael ei diogelu, ei rheoli'n dda a'i gwerthfawrogi gan genedlaethau heddiw ac yfory.

Gyda Wrecsam yn ymgeisio am Statws Dinas Diwylliant yn 2029, teimlwn fod y gamlas a'r dirwedd Treftadaeth y Byd hon yn ategu'r cais hwnnw ac yn gyfle i'w datblygu fel ased treftadaeth a diwylliant yn y dyfodol. Fe wnaeth ein rhaglen creu lleoedd a'r celfyddydau yn Safle Treftadaeth y Byd ddwyn ynghyd bedair cymuned ar hyd coridor y gamlas at ei gilydd: Y Waun, Froncysyllte, Trefor a Chefn Mawr, drwy ddull cydweithredol, dan arweiniad y gymuned a oedd yn cynnwys Grwpiau Cynghori Cymunedol, Grŵp Treftadaeth a Chadwraeth, cynghorau lleol,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ysgolion cynradd, sefydliad lles cymunedol a llawer o grwpiau cymunedol a phartneriaid lleol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r rhaglen wedi cyfuno ymgysylltu creadigol, ymchwil treftadaeth a chreu lleoedd i ddatgelu a dathlu hanesion lleol llai adnabyddus, gan gyflwyno a galluogi prosiectau a digwyddiadau cymunedol, llwybrau a dehongli dan law'r gymuned, a mentrau llesiant gan gynnwys 'Mainc Gobaith'. Roedd y gweithgareddau hyn yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol trwy fynegiant creadigol a sgysiau agored, cryfhau cysylltiad cymdeithasol a'r ymdeimlad o berthyn, ac annog defnydd mwy gweithredol o gamlesi a mannau gwyrdd ar gyfer llesiant corfforol. Dywedodd trigolion fod y rhaglen "yn rhoi ystyr i'r lle" ac wedi'u helpu i ddysgu straeon "am y lle dw i wedi byw ynddo



Glandŵr Cymru

erioed," yn ogystal â chreu cyfleoedd i gysylltu, myfyrio a magu hyder trwy rannu profiadau.

Roedd ein rhaglen yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy brofi a dangos sut y gall creu lleoedd dan arweiniad treftadaeth gynyddu'r amser mae ymwelwyr yn ei dreulio yn yr ardal, hybu gwariant lleol, a chreu cyfleoedd i fusnesau bach a masnachwyr. Trwy fentrau fel marchnadoedd arnofiol, treialon tacsis dŵr, a digwyddiadau cymunedol, cafodd y gamlas ei defnyddio fel ased economaidd, gan gefnogi gweithgarwch cychod, annog mentrau



Prosbectws ar gyfer Camlesi Cymru

newydd, ac archwilio cyfleoedd busnes y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r ddyfrffordd.

Daeth anghenion datblygu ymarferol i'r amlwg hefyd, o seilwaith a mynediad i'r posibilrwydd o ailddefnyddio adeiladau treftadaeth, gan helpu i osod y sylfaen ar gyfer adfywio hirdymor sy'n integreiddio twristiaeth, bywyd cymunedol a menter leol. Trwy gynnwys arweinyddiaeth gymunedol a sicrhau cydnawsedd â chynlluniau strategol ehangach, mae'r prosiect yn cefnogi model mwy cynaliadwy o ddyfrffyrdd byw - lle mae twf economaidd,

cadwraeth treftadaeth, cychod, a defnydd cymunedol bob dydd yn cefnogi ei gilydd.

Nod y cam nesaf yw datblygu Strategaeth a Chynllun Creu Lleoedd Treftadaeth hirdymor dan arweiniad y gymuned, gan gysylltu'r pedair cymuned fel cyrchfannau gwahanol ond cysylltiedig, ehangu rhaglenni llesiant, addysg a gwirfoddoli, a chefnogi model mwy teg o dwristiaeth gynaliadwy wedi'i wreiddio mewn arweinyddiaeth gymunedol.

ASTUDIAETH ACHOS: Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Yn cael ei chydabod yn rheolaidd fel un o'r camlesi prydferthaf yn y DU, Camlas Mynwy ac Aberhonddu yw un o ddyfrffyrdd diwydiannol pwysicaf Cymru sydd wedi goroesi. Wedi'i hadeiladu ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y gamlas yn hanfodol i gludo haearn, glo, calchfaen a nwyddau amaethyddol o Fannau Brycheiniog i ardaloedd diwydiannol y De. Mae'r dystiolaeth ffisegol o beirianeg gynnar - gan gynnwys lociau, pontydd a dyfrbontydd - yn parhau i gael eu defnyddio hyd heddiw, ac yn helpu i adrodd hanes diwydiannu'r Gymru wledig. Fel camlas gyfuchlin gyflawn i raddau helaeth, mae'n cynnig cysylltiad dilys â hanes cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth sydd wir yn diffinio treftadaeth fyw.

Mae'r gamlas yn werthfawr yn amgylcheddol hefyd, fel coridor natur llinol trwy Ddyffryn Wysg a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae ei dyfroedd tawel a'i glannau yn gynefin pwysig i blanhigion dyfrol, infertebratau, adar, ystlumod, a mamaliaid eraill fel y dyfrgi, gan gyfrannu at fioamrywiaeth leol a chymeriad y dirwedd. Mae'r gamlas yn helpu gyda dulliau rheoli dŵr, gan ddarparu dŵr ar gyfer amaeth a bwydo systemau dŵr lleol, ac mae'n annog mannau gwyrdd cyfagos i gael eu cadw a'u gwella ar gyfer pobl yn ogystal â bywyd gwylt. Mewn cyfnod o bwysau cynyddol ar yr amgylchedd, mae'r gamlas yn enghraifft werthfawr o seilwaith hanesyddol yn cefnogi gwydnwch ecolegol modern.

Mae Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn darparu manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol hefyd. Mae'n gaffaeliad hamdden sylweddol i'r rhanbarth, gan ddenu cerddwyr, beicwyr, defnyddwyr cychod, pysgotwyr, a thwristiaid gydol y flwyddyn, sy'n cefnogi busnesau lleol fel tafarndai, darparwyr llety, a gwasanaethau llogi. Y gamlas yw atyniad mwyaf poblogaidd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'n cyfrannu hyd at £30 miliwn i economi'r rhanbarth bob blwyddyn.

Yn 2026, rhoddwyd hwb i wydnwch a dyfodol y gamlas diolch i hyd at £2 filiwn o arian grant gan Lywodraeth Cymru dros bum mlynedd ar gyfer ariannu'r dŵr ategol angenrheidiol i fwydo'r gamlas. Mae'r dyraniad hwn yn cydnabod rôl hanfodol y gamlas a'i gwerth i'r rhanbarth a gweddill Cymru, ac yn diogelu dyfodol yr ased anhygoel hwn ar gyfer mordwyo, teithio llesol, llesiant a'r economi.

Gyda datblygiad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae cyfle i ystyried a hybu rôl bwysig y gamlas fel atyniad i dwristiaeth ac ased ar gyfer datblygiad economaidd gwledig er mwyn sicrhau bod manteision y Brifddinas-Ranbarth a'r buddsoddiad cysylltiedig yn cyrraedd cymunedau gwledig y rhanbarth.

Y gamlas yw

atyniad mwyaf poblogaidd

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'n cyfrannu

hyd at **£30 miliwn** i economi'r rhanbarth bob blwyddyn



FFYNIANT: Cyflogadwyedd a sgiliau

Mae ein camlesi yn darparu cyfleoedd pwysig i hyrwyddo a chefnogi cyflogadwyedd a sgiliau trwy ddarparu ystod eang o gyfleoedd galwedigaethol a lefel mynediad ym meysydd treftadaeth, adeiladu, twristiaeth a rheoli'r amgylchedd.

Mae cynnal a chadw ac adfer dyfrffyrdd hanesyddol yn dibynnu ar grefftau medrus fel peirianeg, gosod brics, gwaith coed a chynnal a chadw'r tiroedd, gan helpu pobl i feithrin sgiliau ymarferol a throsglwyddadwy. Mae cyfleoedd i brosiectau camlesi gynnig prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a llwybrau gwirfoddoli, gan alluogi unigolion - gan gynnwys pobl ifanc a'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith - i fagu hyder, ennill cymwysterau a gwella eu rhagolygon cyflogaeth hirdymor.

Ar ben hynny, mae camlesi Cymru yn ysgogi swyddi lleol trwy dwristiaeth a menter gymunedol. Mae cychod, lletygarwch, gwasanaethau ymwelwyr a digwyddiadau ar hyd camlesi yn creu swyddi a hefyd yn annog entrepreneuriaeth a sgiliau gwasanaethau cwsmeriaid.

Ar yr un pryd, mae camlesi yn gweithredu fel amgylcheddau dysgu awyr agored, gan gefnogi hyfforddiant mewn cadwraeth, monitro bioamrywiaeth a sgiliau gwyrdd sy'n cyd-fynd â nodau cynaliadwyedd a llesiant Cymru.

Credwn fod cyfle pellach i dyfu partneriaethau gyda darparwyr sgiliau ledled Cymru a gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ymchwilio i sut gallwn ni ddefnyddio camlesi i hybu sgiliau a hyfforddiant a chefnogi cyflogadwyedd.

Gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli yn fan cychwyn hygyrch i gyflogaeth, yn enwedig ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnig dilyniant strwythuredig i sgiliau a gyrfaoedd. Mae'n fecanwaith cyflawni craidd, gyda phobl yn cyfrannu at gadwraeth treftadaeth, digwyddiadau, gwasanaethau ymwelwyr ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant, goruchwyliaeth a chefnogaeth, sy'n eu helpu i fagu hyder ac ennill profiad ymarferol mewn treftadaeth, ymgysylltu a gwaith amgylcheddol. Mae cymryd rhan mewn prosiectau camlesi yn darparu cyfleoedd i feithrin sgiliau cyflogadwyedd, ennill profiad gwaith yn y byd go iawn a dilyn llwybrau i hyfforddiant pellach neu gyflogaeth, yn enwedig gyrfaoedd STEM a gyrfaoedd gwyrdd.

Cymrodoriaeth ieuenctid

Mae gan yr Ymddiriedolaeth brofiad o gyflwyno mentrau ieuenctid gan gynnwys Rhaglen Cymrodoriaeth Ieuenctid. Dros 4-6 mis mae'r rhaglen hon yn magu hyder, gwydnwch a sgiliau bywyd; yn cyflwyno pobl ifanc i lwybrau gyrfa sy'n gysylltiedig â dyfrffyrdd, treftadaeth a'r amgylchedd; ac yn cefnogi gweithredu cymdeithasol ac ymgysylltiad dinesig.

Er mai cynllun i Loegr ydyw'n bennaf ar hyn o bryd, mae'n cynnig model sicr y gellir ei addasu i Gymru. Mae'r rhaglenni hyn yn ategu gweithgarwch dysgu a sgiliau ehangach, sydd eisoes yn cael pobl ifanc i ymwneud â dysgu yn yr awyr agored, yn datblygu cyflogadwyedd a sgiliau meddal, ac yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa sy'n gysylltiedig â dyfrffyrdd.

Prentisiaethau

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig rhaglenni prentisiaeth sefydledig sy'n darparu llwybrau strwythuredig ac achrededig i gyfleoedd ar draws gweithrediadau dyfrffyrdd, adeiladu, treftadaeth, yr amgylchedd ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r rhain yn gynnwys rolau fel Prentisiaid Adeiladu, Gweithredwyr Dyfrffyrdd a'r Amgylchedd a swyddi Dysgu a Chyfranogiad Diwylliannol, sydd wedi'u cynllunio i feithrin sgiliau ymarferol ac agor y drws i gyrfaoedd hirdymor yn yr Ymddiriedolaeth.

Mae prentisiaethau yn chwarae rhan allweddol wrth ehangu mynediad, mynd i'r afael â rhwystrau mynediad a chreu llwybrau gyrfa clir sy'n gysylltiedig â threftadaeth, yr amgylchedd a datblygu cymunedol. Mae cyfle gwirioneddol i weithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu'r cynnig hwn ymhellach yng Nghymru.



Natur a bioamrywiaeth

Cynefinoedd a choridoriau hanfodol er mwyn i natur ffynnu

Y DU gw un o'r gwledydd sydd wedi colli'r mwyaf o natur yn y byd, gan wynebu colli bioamrywiaeth difrifol, darnio cynefinoedd, diffyg cysylltedd natur ac anghydraddoldebau llesiant.

Mae ein rhwydwaith camlesi, sydd wedi'i leoli mewn ardaloedd lle mae natur yn brin iawn, wedi'i danbriso am ei rôl ecolegol. Mae'r coridoriau hyn yn cynnal cynefinoedd amrywiol a rhyng-gysylltiedig fel llwybrau tynnu, glannau, ac ymylon dŵr. Mae'r rhain yn llenwi bylchau gwyrdd trefol, gan wrthsefyll darnio yn sgil trefoli a phwysau hinsawdd, a chysylltu tirweddau gwasgareddig. Gyda buddsoddiad a phartneriaethau wedi'u targedu, gall camlesi wneud y canlynol:

- Cysylltu trefi a dinasoedd fel coridoriau hanfodol i fywyd gwylt a phobl
- Creu a gwella cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau dan fygythiad a gwarchodedig
- Bod yn 'barc llinol' cynhwysol ac ysbrydoledig ar gyfer cymunedau lleol
- Cefnogi addysg amgylcheddol, stiwardiaeth, a natur fwy cysylltiedig

Trwy ddatblygu a gwella'r dyfrffyrdd hyn, gallwn wella toriadau ecolegol, cyfoethogi lleoliadau trefol, a darparu manteision ar gyfer bioamrywiaeth, iechyd a thegwch, gan gefnogi'n uniongyrchol weledigaeth Cymru ar gyfer gwlad wyrddach, fwy gwydn a chyfoethog o ran natur.


Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (2026), a lansiwyd ym mis Mawrth 2026 gan lywodraeth flaenorol Cymru, yn nodi fframwaith i wrthdroi colli bioamrywiaeth, cryfhau gwydnwch ecosystemau a sbarduno gweithredu cydgysylltiedig ar draws cyrff cyhoeddus, cymunedau a phartneriaid. Mae awdurdodau lleol hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gofyn am ddatblygu cynaliadwy a gwelliant amgylcheddol yn yr hirdymor. Mae ein camlesi yn rhoi cyfle i ni gyfrannu at yr holl flaenoriaethau polisi strategol hyn.

Mae adfer ein camlesi fel Camlas Maldwyn, er enghraifft, yn gwella ecosystemau ac yn cael gwared ar rywogaethau goresgynnol fel milwr y dŵr. Mae ein camlesi a'n dyfrffyrdd yn creu gwlyptiroedd a chynefinoedd dyfrol sy'n cynnal rhywogaethau prin a gwarchodedig ac yn gwella gwydnwch a bioamrywiaeth ecosystemau dŵr croyw.

Mae coridoriau camlas hefyd yn gweithredu fel cynefin parhaus sy'n cysylltu ardaloedd trefol a gwledig, a thrwy gynnal llwybrau tynnu maen nhw'n darparu mynediad hawdd i'r cyhoedd i'r cynefinoedd hynny. Ar ben hynny, maen nhw'n cyfrannu ar hyn o bryd at Rwydweithiau Ecolegol Gwydn (RENs), rhan o bolisi Cymru, a gallant gyfrannu ymhellach at y rhain.

Mae ein camlesi yn cynnal sawl math o gynefin:

- Dŵr agored
- Perllannau
- Ymylon dyfrol (glannau'r gamlas)
- Rhostir
- Glaswelltir
- Coetir
- Gwrychoedd



Mae dull arbenigol a sensitif Glandŵr Cymru o greu a monitro cynefinoedd – cydbwyso gweithredu a blaenoriaethau amgylcheddol a defnyddio GIS i fapio cynefinoedd yn helpu i gyfrannu at ddull seiliedig ar ddata o wneud penderfyniadau – nid yn unig at ein defnydd ni ein hunain, ond er mwyn cyd-fynd â blaenoriaethau partneriaid ar draws y llywodraeth ac asiantaethau cysylltiedig.

Mae Glandŵr Cymru yn chwarae rôl hanfodol wrth gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth yng Nghymru drwy drosi polisi cenedlaethol yn gamau gweithredu ymarferol, seiliedig ar leoedd – sy'n canolbwyntio ar le a chymuned. Drwy adfer cynefinoedd, cysylltedd ecolegol, gweithio mewn partneriaeth ac ymwneud â'r gymuned, mae Glandŵr Cymru yn cefnogi uchelgeisiau llywodraeth Cymru a dyletswyddau awdurdodau lleol, felly mae'n bartner cyflawni allweddol ym maes adfer natur.

Ar gyfartaledd, mae bywyd gwylt yng Nghymru **wedi gostwng 20%** ers 1994, gyda **18% o'r rhywogaethau dan fygythiad** o ddiflannu'n llwyr.

Rydyn ni'n gofalu am oddeutu **76 milltir** o gamlas yng Nghymru, gan gynnwys:

- **5 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol (SSSI)**
- **40 milltir** gyda statws Baner Werdd

Mae ein dyfrffyrdd yn cysylltu â:

- **3 Ardal Cadwraeth Arbennig yng Nghymru** (Dyffryn Wysg; Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid; Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd)
- **1 Safle Ramsar** (Midlands Meres & Mosses Phase 2)
- **1 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)** (Brynau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy)



ASTUDIAETH ACHOS: Cronfa Rhwydweithiau Natur Camlas Maldwyn

Mae Camlas Maldwyn yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'n cael ei gwerthfawrogi am ei phlanhigion dyfrol prin ac fel llwybr hygyrch i gymunedau lleol. Fodd bynnag, roedd dirywiad yn ansawdd y dŵr, gwaddodion yn cronni a phwysau hinsawdd yn peryglu ei chyflwr ecolegol a'i defnydd cymunedol.

Gyda chymorth y Gronfa Rhwydweithiau Natur, a ddarperir gan y Gronfa Dreftadaeth ar ran Llywodraeth Cymru, cyflwynodd Glandŵr Cymru raglen gydlynus o garthu, adfer cynefinoedd a gwella mynediad rhwng y Trallwng a'r Drenwydd. Dros ddarn 2.5km o hyd, cafodd tua 600m³ o waddodion eu symud i ffwrdd, gan wella llif y dŵr, lleihau lefelau maethynnau ac adfer amodau ar gyfer rhywogaethau prin.

Ar ben hynny, mae'r prosiect wedi cyflwyno mesurau ataliol, gan gynnwys argaeau sy'n gollwng a diogelu'r glannau, i leihau llygredd ac effeithiau llifogydd yn y dyfodol, ochr yn ochr â rheoli cynefinoedd mewn safleoedd dynodedig cyfagos. Mae mynediad gwell yng Ngwarchodfa Natur y Wern a phaneli dehongli dwyieithog newydd wedi ei gwneud hi'n haws i fwy o bobl ymwneud â'r gamlas, gan gefnogi stiwardiaeth hirdymor hefyd.

Mae'r buddsoddiad penodol hwn wedi cryfhau gwydnwch ecolegol y gamlas, sicrhau bod cychod hygyrch Ymddiriedolaeth Heulwen yn gallu parhau i deithio ar hyd y gamlas, ac wedi gwella ei rôl fel gofod a rennir ar gyfer natur, llesiant a chymunedau lleol.

“**Mae'n braf gweld y gwaith hanfodol hwn ar Gamlas Maldwyn wedi'i gwblhau. Mae'r buddsoddiad hwn yn diogelu dyfodol ein teithiau a'r bobl sy'n dibynnu arnyn nhw. Trwy wella ansawdd dŵr a chadw'r sianel yn glir, mae'r prosiect yn sicrhau bod eich cwch pwrpasol yn gallu parhau i deithio'n ddiogel ac esmwyth ar hyd y darn hyfryd hwn o'r gamlas. Bydd y gwelliannau hyn yn ein helpu i barhau i agor Camlas Maldwyn i'r rhai sydd ei hangen fwyaf.**”

Gareth Thomas, o Ymddiriedolaeth Heulwen



ASTUDIAETH ACHOS: Cysylltu plant a phobl ifanc â natur

Mae rhaglenni dysgu Glandŵr Cymru yn cysylltu pobl â natur drwy ddefnyddio ein rhwydwaith camlesi yng Nghymru fel ystafelloedd dosbarth awyr agored byw, gan gyfuno dysgu ymarferol seiliedig ar le gyda llesiant, creadigrwydd a gweithredu amgylcheddol. Trwy raglenni fel Fforwyr, mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn profiadau dysgu ymgolli yn yr awyr agored - yn amrywio o waith maes ac archwilio cynefinoedd i weithgareddau creadigol ac ymarferol - sy'n eu helpu i ddeall eu lle yn yr amgylchedd naturiol a meithrin perthnasoedd parhaol â mannau glas a gwyrdd. Mae'r dull hwn wedi'i ategu gan daith strwythuredig o ymwbybyddiaeth i weithredu, lle mae dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei baru ag ymweliadau glan y dŵr a chyfleoedd ar gyfer gweithredu cymdeithasol, gan annog cyfranwyr i fagu hyder, gwydnwch ac ymddygiadau sydd o fudd i'r amgylchedd wrth wella eu hiechyd a'u llesiant.

Mae'r dull hwn yn cael ei gyflwyno trwy ystod o raglenni lleol sy'n dod â'r egwyddorion hyn yn fyw. Yn Nhorfaen, mae ein rhaglen Gwreiddiau Cymunedol yn canolbwyntio ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, gan gyfuno dysgu awyr agored, padlo, ysgol y goedwig a phrosiectau creadigol gydag ysgolion a chymunedau i feithrin cysylltiadau rheolaidd ac ystyrlon â natur ac ymdeimlad cryfach o stiwardiaeth leol. Yn y Gogledd, mae gweithgareddau dysgu a threftadaeth yn Safle Treftadaeth y Byd Pontcysyllte yn dod ag ysgolion a chymunedau at ei gilydd drwy lwybrau, gwaith creadigol a phrosiectau bioamrywiaeth, gan helpu pobl i ddeall a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yn well wrth dreulio mwy o amser yn yr awyr agored.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn dangos sut mae ein cynnig dysgu yng Nghymru yn ymwreiddio cysylltiad â natur trwy ymgysylltiad rheolaidd a chynhwysol sy'n seiliedig ar brofiadau â'r dyfrffyrdd fel asedau cymunedol bob dydd.

Mae ein rhaglen ddysgu STEM yn cysylltu dysgu pobl ifanc yn yr ystafell ddosbarth â defnyddiau ymarferol mewn peirianeg, gwyddor amgylcheddol a rheoli dŵr. Trwy weithdai cysylltiedig â'r cwricwlwm, ymweliadau safle ac allgymorth, mae'n magu hyder, yn codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd STEM ac yn herio'r canfyddiadau am bwy sy'n gallu dilyn y gyrfaoedd hyn. Yn hanfodol, mae'r rhaglen yn darparu llwybrau datblygu sgiliau clir, o ymgysylltu cynnar a phrofiadau ymarferol hyd at brofiad gwaith, lleoliadau a phrentisiaethau, gan roi blas i bobl ifanc ar rolau go iawn mewn meysydd fel ecoleg a gwyddor amgylcheddol, yn ogystal â pheirianeg a hydroleg, gan eu cefnogi i gamu ymlaen i yrfaoedd gwyrdd a thechnegol a helpu i sicrhau mwy o amrywiaeth yn y gweithlu yn y dyfodol.





Iechyd a Lles

Cysylltu pobl â mannau glas, llwybrau a natur

Mae camlesi yn chwarae rhan werthfawr wrth gefnogi iechyd a llesiant trwy ddarparu mannau hygyrch, tawel a braf, lle gall pobl fod yn egnïol, ymlacio, a chysylltu â natur.

Mae llwybrau tynnu ar hyd camlesi yn annog gweithgarwch corfforol bob dydd fel cerdded, beicio a rhedeg, gan helpu i wella ffitrwydd a lleihau'r risg o gyflyrau iechyd hirdymor. Mae'r dyfroedd tawel, bywyd gwyllt, a choridorau gwyrdd yn cynnig amgylcheddau adferol sy'n hybu iechyd meddwl, gan leihau straen, gorbryder, ac ynysu cymdeithasol. Mae ein camlesi hefyd yn dod â chymunedau at ei gilydd trwy greu mannau cyhoeddus a rennir ar gyfer gwirfoddoli, rhyngweithio cymdeithasol, a digwyddiadau lleol, sy'n cryfhau cysylltiadau cymdeithasol ac ymdeimlad o berthyn. Trwy gynnig mannau cynhwysol, yn rhad ac am ddim, yn agos at gartrefi pobl, mae camlesi Cymru yn cyfrannu at ffyrdd iachach o fyw a llesiant gwell i unigolion a chymunedau fel ei gilydd.

Fodd bynnag, rydym ni'n teimlo bod llawer mwy o botensial i gynyddu manteision llesiant y mannau anhygoel hyn. Gallai partneriaeth agosach â Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau lleol, partneriaid yn y trydydd sector a grwpiau cymunedol gynnwys camlesi mewn rhaglenni presgripsiynu cymdeithasol, atal a theithio llesol, tra byddai dathlu diwylliant a bioamrywiaeth Cymru ar hyd dyfrffyrdd yn hwb i'w gwerth adferol ac yn cryfhau cysylltiad pobl â lle.



ASTUDIAETH ACHOS: Gwreiddiau Cymunedol Torfaen

Rhaglen ar lawr gwlad sy'n cryfhau cysylltiadau rhwng pobl leol a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu yw prosiect Gwreiddiau Cymunedol Glandŵr Cymru yn Nhorfaen. Mae wedi'i chanoli ar y ganolfan gymunedol ym Masn Pont-y-moel ger Pont-y-pŵl. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae degau ar filoedd o bobl wedi ymwneud â'r rhaglen. Mae wedi helpu trigolion i archwilio treftadaeth y Gamlas, gwella llesiant, a datblygu ymdeimlad cryfach o falchder yn eu hamgylchedd lleol, wrth sicrhau bod y gamlas yn cael ei chydnabod fel ased cymunedol a rennir sy'n perthyn i bawb. Gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol, ysgolion a grwpiau gwirfoddol, mae'r prosiect yn ennyn diddordeb pobl nad ydynt fel arfer yn defnyddio'r dyfrffyrdd, gan ddileu rhwystrau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb ac ynysu a chyflwyno dull mwy cynhwysol o gyflawni, dan arweiniad y gymuned ei hun.

Trwy raglen amrywiol o wirfoddoli, prosiectau creadigol, dysgu awyr agored a meithrin sgiliau, mae Gwreiddiau Cymunedol wedi trawsnewid mannau ar ochr y gamlas sydd wedi'u tanddefnyddio yn amgylcheddau croesawgar, llawn bwrlwm. Mae hyn wedi cynnwys datblygu sylfaen gwirfoddolwyr cynaliadwy, creu clwb canŵio cymunedol a chyfleoedd padlo, a sefydlu ysgol y goedwig a lle dysgu awyr agored, ochr yn ochr ag ystod eang o weithgareddau rheolaidd sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn annog pawb i gymryd rhan yn barhaus.

Mae'r ymyriadau hyn wedi ehangu mynediad at fannau gwyrdd a glas, wedi helpu i fagu hyder a datblygu sgiliau, ac wedi rhoi cyfle i bobl o bob oed a chefnidir i ddylanwadu ar sut mae coridor y gamlas yn cael ei ddefnyddio a'i warchod, gan feithrin perchnogaeth gymunedol a stiwardiaeth amgylcheddol hirdymor.

Cyflawnwyd hyn drwy bob math o brosiectau a phartneriaethau ymarferol, dan arweiniad lleol, gan gynnwys sesiynau padlo cymunedol a diwrnodau agored, teithiau tywys treftadaeth, rhaglenni gwylltgrefft ac ysgol y goedwig, a mentrau celfyddydau ar lan y gamlas fel prosiectau murluniau dan arweiniad ysgolion. Mae'r rhaglen wedi gweithio'n agos gydag ysgolion lleol, grwpiau ieuencid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, colegau lleol, canolfannau atgyfeirio, cynghorau cymuned a phartneriaid fel Chwaraeon Cymru, Canŵio Cymru a sefydliadau llawr gwlad - yn ogystal â denu gwirfoddolwyr, teuluoedd ac unigolion o gymunedau cyfagos gan gynnwys Pont-y-pŵl a Chwmbân. Trwy'r gweithgareddau hyn, mae Gwreiddiau Cymunedol wedi dod â phobl o bob oed a chefnidir at ei gilydd, gan gefnogi pobl ifanc i fagu sgiliau a hyder a chreu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol.

Gan adeiladu ar y sylfaen gadarn hon, mae Gwreiddiau Cymunedol Torfaen bellach yn rhan o'r rhaglen Cysylltiadau Natur Trefol, sy'n ehangu'r model profedig yn fframwaith tymor hwy wedi'i gydlynu'n genedlaethol sy'n cael ei ariannu gan y Postcode Lottery, Worwin UK Foundation a Glandŵr Cymru. Drwy'r newid hwn, mae'r prosiect yn parhau i wneud ei farc trwy gryfhau cysylltiadau natur, gwella iechyd a llesiant, a helpu cymunedau i gymryd rôl weithredol wrth warchod a gwella eu hamgylchedd lleol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod y gamlas yn rhan lawnach o fywyd bob dydd y gymuned, gan ddarparu manteision cymdeithasol ac amgylcheddol parhaol wrth gefnogi Glandŵr Cymru i ofalu am y ddwyffordd mewn partneriaeth â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

ASTUDIAETH ACHOS: Prosiect Arloesi Gogledd Cymru Actif

Sefydlwyd Prosiect Arloesi, sy'n cael ei ariannu gan Gogledd Cymru Actif a'i gyflwyno gan Glandŵr Cymru, er mwyn profi a dysgu sut i chwalu rhwystrau i weithgarwch corfforol ymhlith merched ifanc rhwng 11 a 25 oed yn ardal Llangollen a Wrecsam - gyda llawer ohonynt nhw heb fawr o gysylltiad blaenorol â chamlesi neu weithgarwch wedi'i drefnu. Gan ddefnyddio'r gamlas leol, y llwybrau tynnu a'r dyfrffyrdd, fe wnaeth y prosiect greu cyfleoedd croesawgar dros chwe mis i tua 100 o gyfranogwyr fod yn egnïol, cysylltu'n gymdeithasol a threulio amser ym myd natur. Dangosodd sut mae rhwydwaith camlesi Cymru yn gallu bod yn sbardun ar gyfer gwella iechyd, hyder a llesiant menywod ifanc.

Trwy sesiynau lle gallent roi cynnig ar weithgareddau heb ddim pwysau, yn cynnwys canŵio, padfyrddio, cerdded a gwylltgrefft, llwyddodd y rhaglen i gael gwared ar rwystrau allweddol fel cost, hyder ac ymrwymiad, gan greu llwybrau hygyrch i weithgarwch corfforol.

Gan fod y prosiect wedi'i gynllunio ar y cyd, roedd y cyfan wedi'i siapia gan y merched eu hunain. Roedd gwaith ymgynghori cynnar wedi dangos galw clir am weithgareddau cymdeithasol hyblyg a phwyntiau mynediad fforddiadwy, gan arwain at fodel a oedd yn blaenoriaethu cynhwysiant, diogelwch a mwynhad.

Mae wedi cael effaith amlwg, gyda'r rhai fu'n cymryd rhan yn dweud bod y sesiynau wedi gwella eu hyder a'u llesiant a'u bod wedi meithrin cysylltiad cryfach â'u hamgylchedd lleol. Mae'r gamlas wedi newid o fod yn ased heb ei ddefnyddio i ofod gwerthfawr ar gyfer hamdden, hunaniaeth a pherthyn i'r gymuned.

Mae'r profiadau hyn eisoes wedi arwain at newid ymddygiad tymor hwy. Mynegodd llawer o'r menywod ifanc awydd i ddychwelyd yn annibynnol gyda ffrindiau neu deulu, gan gefnogi arferion cynaliadwy a chyfranogiad parhaus mewn gweithgarwch corfforol.

Wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â sefydliadau, ysgolion a grwpiau cymunedol lleol, mae'r prosiect hefyd wedi cryfhau'r seilwaith lleol ar gyfer ennyn diddordeb pobl ifanc, gan greu model cydweithredol y gellir ei ehangu ledled Cymru. Mae'r Prosiect Arloesi yn dangos sut gall camlesi ddatgloi cymunedau iachach, mwy hyderus, gan gysylltu pobl ifanc â natur, â'i gilydd ac â phosibiliadau newydd.

Mae'r prosiect wedi cael effaith fawr ar gyfranogwyr:

“ Fe wnaethon nhw ddweud wrtha i ‘mod i'n gryf heddiw ”

“ Mae hyn ganwaith gwell na bod adra ”

“ Yr hwyl mwyaf dwi wedi'i gael ers wythnosau ”

“ Gawn ni ddod 'nôl? ”



Gwydnwch a diogelwch

Rhan hanfodol a rhyng-gysylltiedig o seilwaith y genedl

Mae gan gamlesi yng Nghymru rôl bwysig o ran cefnogi gwydnwch trwy gyfrannu at addasu i newid hinsawdd, rheoli dŵr, a theithio cynaliadwy.

Fel systemau dŵr rhyng-gysylltiedig ag afonydd a nentydd, gall camlesi helpu i reoli lefelau dŵr trwy storio glaw gormodol a'i ryddhau'n araf, gan leihau'r risg o lifogydd mewn tywydd eithafol a helpu i sicrhau bod dŵr ar gael yn ystod cyfnodau sychach. Hefyd, maen nhw'n cefnogi gwydnwch ecolegol trwy ddarparu cynefinoedd a choridoriau bywyd gwyllt, gan helpu bioamrywiaeth i addasu i newid amgylcheddol gyda chymorth stiwardiaeth ofalus ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr. Yn ogystal, mae camlesi sy'n cael eu cynnal yn dda yn gallu cynnig llwybrau trafniadaeth a hamdden carbon isel, gan annog cerdded, beicio a thwristiaeth leol, sy'n cryfhau economïau lleol a llesiant cymunedol - elfennau allweddol gwydnwch tymor hir.

Mae camlesi yn rhan hanfodol a rhyng-gysylltiedig o seilwaith y genedl. Gallant helpu i wrthsefyll newid hinsawdd trwy storio a symud dŵr er mwyn helpu i liniaru llifogydd trefol a rheoli risgiau sychder.

Fodd bynnag, mae ein rhwydwaith camlesi sy'n heneiddio dan straen enfawr o ganlyniad i effeithiau tywydd difrifol sy'n digwydd yn amlach. Her fawr yw'r digwyddiadau tywydd eithafol, yn llifogydd a sychder, sy'n digwydd yn amlach ac yn para'n hirach - gan effeithio ar wydnwch ein strwythurau a'n cynefinoedd, yn ogystal a'n cwsmeriaid a'r busnesau sy'n dibynnu ar y dyfrffyrdd.

Mae'r rhwydwaith camlesi cenedlaethol yn cynnwys miloedd o strwythurau cysylltiedig a rhyngddibynnol, o ddyfrbontydd a chronfeydd dŵr i lociau a chwiferi, i gyd yn cael eu monitro a'u cynnal i gadw camlesi ar

agor, yn fywiog ac yn diogelu'r cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae'r seilwaith hwn hefyd yn cario gwasanaethau a chysylltiadau cyfathrebu hanfodol fel band eang ffibr llawn o dan lwybrau

tynnu, gyda phontydd camlesi yn aml yn cynnal ceblau trydan, nwy a dŵr hanfodol, gan danlinellu pwysigrwydd y strwythurau i gymunedau lleol a'r rhanbarth ehangach.



ASTUDIAETH ACHOS: Trosglwyddo dŵr

Mae trosglwyddiad dŵr Camlas Llangollen yn chwarae rôl strategol bwysig wrth ddosbarthu dŵr o ddalgylch Afon Dyfrdwy dros y ffin i rannau o Ogledd-orllewin a Chanolbarth Lloegr. Wedi'i hadeiladu'n wreiddiol fel camlas fordwyo, ymhlith ei defnyddiau amrywiol yn yr 21ain ganrif, mae'r gamlas hefyd wedi esblygu i fod yn ddarn hanfodol o seilwaith dŵr rhanbarthol, gan ddarparu ystod eang o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Mae Camlas Llangollen yn enghraifft o wydnwch adnoddau dŵr rhanbarthol. Mae dŵr sy'n cael ei dynnu o Afon Dyfrdwy yn Rhaeadr y Bedol yn cael ei gludo trwy'r gamlas i gefnogi systemau cyflenwi dŵr cyhoeddus sy'n gwasanaethu poblogaethau trefol mawr dros Glawdd Offa, gan gynnwys ardaloedd Caer, Glannau Mersi, a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Mae'r trosglwyddiad hwn o un dalgylch i'r llall yn helpu i gydbwysu faint o ddŵr sydd ar gael rhwng dalgylchoedd gwlypach yr ucheldir a'r rhanbarthau lle mae dŵr yn fwy prin, yn enwedig yn ystod tywydd sych.

Mae'r gamlas ar yr un pryd yn cyflenwi dŵr i'w drosglwyddo ac yn cynnal lefelau mordwyo ar ei hyd. Mae'r rôl ddeuol hon yn cefnogi gweithgareddau cychod, cerdded, beicio a thwristiaeth leol, gan gyfrannu at economi wledig y Gogledd a siroedd y gororau. Fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, mae defnydd parhaus o'r gamlas a'r gwaith cynnal a chadw arni yn diogelu ei strwythurau hanesyddol a'i gwerth diwylliannol.



ASTUDIAETH ACHOS: Camlas Abertawe – seilwaith teithio llesol gwydn

Mae Camlas Abertawe yn dangos sut gall dyfrffyrdd hanesyddol fod yn seilwaith gwydn ac amlbwrpas. Yng Nghlydach, cafodd bron i 1.5km o lwybr tynnu'r gamlas ei uwchraddio'n 2022 i greu llwybr defnydd a rennir diogel a hygyrch ar gyfer cerdded a beicio, gan ffurfio rhan o Rwydwaith Beicio Cenedlaethol Prydain (NCN43) a chynnig dewis amgen carbon isel ar gyfer teithiau bob dydd.

Wedi'i gyflawni gan Gyngor Abertawe mewn partneriaeth â Glandŵr Cymru, gyda nawdd gan gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, fe wnaeth y cynllun wella gwydnwch trafniadaeth drwy gynnig llwybrau dibynadwy y tu allan i'r rhwydwaith priffyrdd. Fe wnaeth helpu hefyd i addasu i newid hinsawdd drwy sicrhau stiwardiaeth barhaus o goridor gwyrdd-glas.

Gan adeiladu ar y gwaith hwn, mae Glandŵr Cymru wedi cyfrannu at Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol diweddar, gan nodi cyfleoedd i ymestyn gwelliannau tebyg ymhellach ar hyd y gamlas i Ynysmeudwy. Byddai hyn yn datgloi 2.5km ychwanegol o lwybr teithio llesol posibl mewn amgylchedd diogel, di-drafftig, gan wella cysylltedd rhwng cymunedau ac ategu rôl y gamlas fel seilwaith hollbwysig sy'n cefnogi trafniadaeth gynaliadwy, llesiant a gwydnwch hirdymor.



Credyd llun: Martin Davies

Gyda’n gilydd byddwn yn:

Mae’r Prosbectws hwn wedi dangos gwerth ein camlesi a’n dyfrffyrdd mewn ymdrechion i dyfu ein heconomi, hybu llesiant cymunedol a phersonol, ac atgyfnerthu stiwardiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Maen nhw’n darparu llwyfan ar gyfer pwysleisio gwerth treftadaeth o fewn dulliau polisi seiliedig ar leoedd a chyfleoedd i dyfu a meithrin y Gymraeg a diwylliant Cymreig. Trwy gyllid cynaliadwy a phartneriaethau newydd, mae llawer mwy o gyfle i dyfu cynnig ein dyfrffyrdd.

Gan weithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid, bydd y crynodeb hwn o gamau gweithredu yn gosod ein camlesi yng Nghymru fel ased yr 21ain ganrif ar gyfer twf a chymdogaethau cynhwysol a chynaliadwy, lleoedd ar gyfer natur, iechyd a llesiant, yn ogystal â helpu i wrthsefyll newid hinsawdd.



Gan weithio gyda’n gilydd dros Leoedd a ffyniant byddwn yn:

PP1: Datblygu ein seilwaith camlesi i gynnal coridorau camlesi ffyniannus gyda chymysgedd o fusnesau; angorfeydd ymwelwyr, preswyl a busnes; chwaraeon padlo a physgota; ochr yn ochr â ffyrdd newydd ac arloesol o ddefnyddio dyfrffyrdd wrth i gamlesi barhau i esblygu.

PP2: Gweithio gyda phob un o bedwar rhanbarth economaidd Cymru i ymchwilio i sut gall camlesi o fewn y rhanbarthau hynny ychwanegu at ddatblygiad economïau a chymunedau rhanbarthol fel sbardunau adfywio.

PP3: Defnyddio a thyfu gwerth ein camlesi a’u treftadaeth fel atyniadau ymwelwyr a datblygu economaidd gwledig a helpu i dyfu eu rôl wrth adrodd stori Cymru, er mwyn cryfhau brand Cymru yn ddomestig ac yn rhyngwladol, a chydweithio â datblygwyr a phartneriaid llywodraeth leol i ddatblygu cymdogaethau diogel, deniadol a chysylltiedig ar lan y dŵr, sy’n integreiddio tir a dŵr, yn dathlu cymeriad unigryw ein camlesi, ac yn gwella seilwaith cychod a chefnogi busnesau glan dŵr i ffynnu.

PP4: Gan weithio gyda chymunedau, ysgolion a cholegau lleol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, byddwn yn creu cyfleoedd gwaith a phrentisiaethau o fewn coridorau camlesi ar gyfer pobl leol, yn ogystal ag ehangu rhaglenni adsefydlu cymunedol er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau a chyflogaeth leol.

Gan weithio gyda’n gilydd dros Natur a bioamrywiaeth byddwn yn:

NB1: Cydweithio â’r llywodraeth a phartneriaid i gryfhau a hybu gwydnwch amgylcheddol trwy wella camlesi fel coridorau bywyd gwyllt, cefnogi a chysylltu bioamrywiaeth o fewn tirweddau ehangach a darparu mynediad i natur.

NB2: Cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i feithrin sgiliau a gallu mewn swyddi gwyrdd, drwy brentisiaethau, gwirfoddoli a chyfleoedd hyfforddi.

NB3: Cynyddu bioamrywiaeth ar hyd camlesi drwy helpu rhywogaethau brodorol i ffynnu, cefnogi coridorau bywyd gwyllt a gwneud y gorau o’r cyfleoedd i wella mynediad i ardaloedd sy’n gyforiog o natur.

NB4: Ystyried gweithio ar draws partneriaid llywodraeth ar hyd a lled Cymru er mwyn ymchwilio’n llawn i sut mae gwaith Glandŵr Cymru a’n ffocws ar hyrwyddo creu a diogelu cynefinoedd, rheoli dŵr a defnyddio technoleg ac arloesi yn gallu dysgu o flaenoriaethau strategol a pholisïau fel Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn, er enghraifft, a chyfrannu atynt.

Gan weithio gyda’n gilydd dros Iechyd a llesiant, byddwn yn:

HW1: Cefnogi’r uchelgais o hybu mynediad at fannau gwyrdd neu las o’r radd flaenaf, cysylltu pobl leol â natur a’r awyr agored, bod yn ddiogel a chroesawu mannau glas gydag achrediad Baner Werdd.

HW2: Datblygu rhwydwaith teithio llesol iach rhanbarthol mwyaf y DU ar hyd ein camlesi, gan chwalu rhwystrau i’r defnydd o lwybrau tynnu drwy gynyddu ymwybyddiaeth ohonyn nhw a’u cynnwys mewn cynlluniau trafnidiaeth a lle bo’n bosibl, eu cysylltu â chynlluniau ar gyfer rhwydweithiau Metro rhanbarthol yng Nghymru.

HW3: Ehangu ymyriadau iechyd sy’n seiliedig ar natur, gan gynnwys ein rhaglen ‘Camlesi ar Bresgripsiwn’ i gefnogi iechyd ataliol a lleddfu’r pwysau ar y GIG yng Nghymru.

HW4: Ennyn diddordeb pobl leol i hyrwyddo manteision helpu i ofalu am ein camlesi i iechyd a llesiant - mae ein gwirfoddolwyr yn hapusach ac yn iachach!

Gan weithio gyda’n gilydd dros Wydnwch a diogelwch, byddwn yn:

RS1: Gweithio gyda’n partneriaid yn y diwydiant i ddefnyddio ein rhwydwaith i gludo dŵr o ardaloedd â gormodedd i ardaloedd o angen, lle bo’n briodol, gan gefnogi seilwaith dŵr hollbwysig ac uchelgeisiau codi tai y wlad. Byddwn yn adeiladu partneriaethau gan dynnu ar arloesedd ac arbenigedd peirianyddol fel cyrff rheoli dŵr i lywio a chreu atebion i wrthbwysio pwysau ar adnoddau naturiol.

RS2: Defnyddio ein camlesi i leihau effeithiau newid hinsawdd trwy reoli sychder a llifogydd, storio dŵr yn well, cefnogi ecosystemau gwydn, a diogelu cymunedau a seilwaith.

RS3: Gweithio gyda datblygwyr i archwilio a defnyddio potensial ein rhwydwaith camlesi ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, megis gwresogi ac oeri, ynni solar a micro-hydro, ac ar gyfer atebion arloesol eraill i ddarparu datblygiadau cynaliadwy.





Rhagor o wybodaeth

Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â:

- Wales@canalrivertrust.org.uk
- <https://canalrivertrust.org.uk/cy/cymru>



Glandŵr Cymru
Canal & River Trust in Wales



Cefnogwch ni